



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 361 – 8 Tachwedd 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 360

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 360.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol gyda Stephen Crabb A.S. yn ddiweddar a chafwyd cyfle i roi diweddariad iddo am waith S4C.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig.

Strategaeth Rhaglenni 2013 ymlaen - Cyflwynodd DRh y Strategaeth Rhaglenni drafft, gan gynnwys adolygiad o Weledigaeth 2012+ a'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer amserlen newydd. Cafwyd trafodaeth am flaenoriaethau gwariant yr amserlen. Nodwyd mai'r bwriad hir dymor oedd clustnodi cyllidebau ar gyfer pob genre. Penderfynwyd y byddai dadansoddiad o wariant y gyllideb cynnwys fesul genre yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law. Diolchwyd i DRh am gyflwyno'r strategaeth drafft, a chymeradwywyd yr egwyddorion a gyflwynwyd.

Cyllideb 2013-2017 - Cyflwynodd IHJ gyllideb drafft ar gyfer 2013 ynghyd â chynllun ariannol drafft ar gyfer pum mlynedd. Cafwyd trafodaeth am y broses o osod y gyllideb a nodwyd bod pob adran wedi edrych o'r newydd ar eu gweithgareddau gan geisio cyfleoedd i wneud arbedion a symleiddio eu gweithgareddau. Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2013 o fewn fframwaith y cynllun ariannol pum mlynedd.

Proses Tandro Rhaglenni S4C - Cyflwynodd EM argymhellion ar gyfer adolygu proses dendro S4C. Bwriad y ddogfen ddiwygiedig yw symleiddio'r broses trwy gynnal cystadleuaeth agored llai ffurfiol. Nodwyd bod y broses bresennol yn creu llwyth gwaith afresymol o fewn y cwmnïau cynhyrchu ac S4C. Cymeradwywyd y drefn newydd.

4. Diweddariad ar yr Ymgynghoriad ar y Cytundeb Gweithredu drafft rhwng yr Awdurdod ac Ymddiriedolaeth y BBC

Cyflwynodd PW grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cytundeb Gweithredu drafft a dogfen yn awgrymu meysydd i'w hystyried ymhellach gydag Ymddiriedolaeth y BBC. Cafwyd trafodaeth am y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion. Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn parhau i drafod gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r awgrymiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod er mwyn cyflwyno cytundeb terfynol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y rhaglenni a'r pynciau isod:

Ffeithiol - Nodwyd bod canmoliaeth fawr wedi bod i gyfres **Fferm Factor** ond bod y rhaglenni o bosibl yn rhy fyr ac y gellid rhoi rhagor o sylw i'r tasgau a'r dadansoddi ar ddiwedd y rhaglen.

Drama - Cyfeiriwyd at gyfres **Pobl y Cwm**. Bydd darpariaeth drama S4C yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynnwys.

Nodwyd bod prosiect ar y cyd gyda'r Theatr Genedlaethol wedi ei gomisiynu. Bydd y prosiect - **Tir Sir Gâr** - yn gyfle i gyflwyno gwaith y theatr i'r gynulleidfa mewn modd dychmygus.

Chwaraeon - Trafodwyd rhaglen **Marathon Eryri**. Nodwyd nad oedd y rhaglen wedi cynnwys portreadau o'r rhedwyr eleni oherwydd toriadau i'r gyllideb, ond nad oedd hyn wedi amharu ar gyflwyniad y rhaglen. Roedd ymateb da wedi bod i'r rhaglen ac roedd y ffigurau gwyllo yn uwch na'r llynedd.

Cyfeiriwyd at **Ysgoloriaeth Bryn Terfel**. Roedd y rhaglen wedi derbyn ymateb positif gyda thipyn o sôn amdano ar drydar.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad Cyfathrebu